

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Clerc y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Mai 2021

Annwyl Glerc

Goblygiadau ariannol y pandemig COVID-19 – y wybodaeth ddiweddaraf, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. Gwnaeth Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd yr argymhelliad a ganlyn yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2021-22:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19, am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad terfynol am y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Yn flaenorol, gwnaethom anfon dau lythyr at Bwyllgor Cyllid y Bumed Senedd, dyddiedig 7 Gorffennaf 2020 a 4 Tachwedd 2020, a hynny mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor, dyddiedig 4 Mehefin 2020, yn ogystal â'i drafodaethau ynghylch yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021, gan fanylu ar yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y sefyllfa ariannol yn 2020-21, gan gynnwys manylion unrhyw arbedion a chostau ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg.

Rwyf wedi darparu'r wybodaeth hon yn yr atodiad isod.

Yn gywir,



Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ Contact@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ Contact@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Atodiad 1

Effaith ar y Gronfa Brosiectau

Roedd Cyllideb 2020-21 yn dangos bod £1.515 miliwn o wariant i'w ariannu o Gronfa Brosiectau'r Comisiwn. Cafodd COVID-19 effaith ar y Gronfa Brosiectau, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn:

Tabl 1 – Effaith COVID-19 ar Gyllideb y Gronfa Brosiectau

	Cyllideb 2020-21	Gwir sefyllfa 2020-21
Cronfa Brosiectau 2020-21	Swm £'000	Swm £'000
Meddalwedd Legislative Workbench*	£600	£489
Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) – Newid Enw*	£45	£45
Archifo*	£65	-
System y Cyfarfod Llawn*	£50	£11
Gwefan*	£80	£80
Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth	£250	-
Ffenestri newydd – adolygiad dichonoldeb*	£50	£45
Drysau tân newydd*	£80	£80
Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – y Senedd	£225	£233
Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – Tŷ Hywel	£70	£253
Gosod Drws Tân		£92
Gwaith Awyru yn y Pierhead		£30
Gwariant ar yr ystâd sy'n gysylltiedig â COVID-19		£142
Gwariant ar TGCh sy'n gysylltiedig â COVID-19		£191
Cyfanswm	£1,515	£1,691

* ni wnaeth COVID-19 effeithio ar yr eitemau yng nghyllideb wreiddiol y prosiect

Cynyddodd y galw am gyllid o'r gronfa brosiectau o £1.515 miliwn i £1.691 miliwn, sef cynnydd o £176k. Cafodd hyn ei ariannu drwy'r arbedion sy'n gysylltiedig â COVID-19, fel y nodir yn Nhabl 3.

I grynhoi, y prif feysydd prosiect yr effeithiodd COVID-19 arnynt oedd:

- Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth – gostyngiad o £250k
- Diogelwch ffisegol (prosiect oedi) – cynnydd o £191k, gyda gwariant yn cael ei ddwyn ymlaen o 2021-22
- Gweithgaredd a ohiriwyd yn 2019-20 (y flwyddyn flaenorol) (gosod drysau tân/awyru) – cynnydd o £122k yn 2021-22
- Gwariant TGCh ychwanegol yn gysylltiedig â COVID-19 – cynnydd o £191k (gan gynnwys datrysiadau i weithredu'r Cyfarfod Llawn hybrid, mesurau seiberddiogelwch ychwanegol,



gorsafoedd docio ychwanegol ar gyfer gweithio gartref a thechnoleg ar gyfer ystafelloedd smart/fideogynadledda).

- Gwariant ychwanegol ar Reoli Ystadau a Chyfleusterau yn gysylltiedig â COVID-19 – cynnydd o £142k (addasiadau ar gyfer gweithio gartref ac ystafelloedd smart/fideogynadledda).

Yn sgil nodi tanwariant yng nghyswllt y gronfa brosiectau yn gynnar yn 2020-21, a hynny mewn perthynas â gweithgarwch ymgysylltu, bu'r Comisiwn yn trafod yn ofalus a oedd modd blaenoriaethu defnydd arall o'r arian a oedd ar gael.

Cytunodd y Comisiwn y dylid dwyn ymlaen y gwaith o gwblhau'r prosiect i ailfodelu diogelwch ffisegol Tŷ Hywel i flwyddyn ariannol 2020-21 (y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r gwaith hwnnw yn 2021-22). Byddai hyn yn gwella'n sylweddol ddiogelwch ffisegol Tŷ Hywel o ran gwrthsefyll ymosodiad, a byddai'r sgriniau cysylltiedig yn helpu i leihau lledaeniad y feirws, gan ddiogelu'r rhai sy'n gweithio yn y dderbynfa neu'n pasio drwyddo.

Cytunwyd hefyd ar y prosiectau TGCh a nodwyd, gan eu bod yn ymateb yn uniongyrchol i sefyllfa'r pandemig – gan ddarparu offer ar gyfer yr Aelodau, staff cymorth yr Aelodau, a staff y Comisiwn, a'u galluogi i weithio o bell (a thrwy gyfrwng hybrid), a chan gynyddu gwytnwch a seiberddiogelwch ar adeg pan oedd gweithio rhithwir yn hanfodol i fusnes y Senedd.

Yr effaith ar y ddarpariaeth o wyliau blynyddol ac ar lesiant staff

Fel sydd wedi'i nodi yn ein llythyr blaenorol, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 – Buddion Gweithwyr – yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni am gost unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd a gronnwyd gan staff y Comisiwn ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol. Y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2020 oedd £777k (yn cynrychioli 6.9 diwrnod o wyliau blynyddol a 2 ddiwrnod o wyliau hyblyg a gronnwyd gan bob aelod o staff y Comisiwn).

Cyfrifwyd y ddarpariaeth ar 30 Medi 2020, ac roedd y ffigur bum niwrnod yn uwch na'r arfer ar yr adeg honno o'r flwyddyn. Pe bai'r duedd honno wedi parhau, byddai hynny wedi arwain at sefyllfa lle byddai ddarpariaeth ychwanegol gwerth dros £1 miliwn wedi bod yn ofynnol ar 31 Mawrth 2021. Gwnaeth y Comisiwn ymdrech gadarn i annog staff i ddefnyddio'r gwyliau a gronnwyd ganddynt yn ystod mis Rhagfyr 2020. Yn sgil hynny, roedd y ddarpariaeth ofynnol yn llai. Gwnaethpwyd cais am gyllideb atodol o £650k, a chafodd y gyllideb honno ei chymeradwyo.

Mae'r sefyllfa hon yn amlygu'r ffaith bod y pandemig COVID-19 wedi golygu bod rhai aelodau o staff wedi gorfod addasu eu patrymau gwaith yn sylweddol er mwyn ymateb i ofynion y Comisiwn. Yn sgil hynny, mae rhai aelodau o staff wedi methu â chymryd gwyliau, ac mae eraill wedi dweud



nad ydynt am gymryd gwyliau. Mae'r sefyllfa hon yn parhau i gael sylw at ddibenion sicrhau llesiant staff.

Yr effaith ar gyllidebau meysydd gwasanaeth – gwariant cyffredinol

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar wariant cyffredinol y Comisiwn o ddydd i ddydd wedi amrywio yn ystod 2020-21, ac mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn arwydd cynnar o ble'r oedd angen gwariant ychwanegol a ble y daeth arbedion i'r amlwg.

Tabl 2 – Gwariant ychwanegol y Comisiwn

Gwariant	Gwir sefyllfa 2020-21 £
Ystadau a Chyfleusterau – Sgriniau, Arwyddion, Offer diheintio, agorwyr drysau ac ati.	39,000
TGCh – Trwyddedau Zoom, gliniaduron, sgriniau, allweddellau ac ati.	88,000
Diogelwch – Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)	4,000
Desgiau, cadeiriau ac ati ychwanegol yn dilyn asesiadau DSE cartref	19,000
Gostyngiad yn incwm y siop	10,000
Cyfanswm	160,000

Yn ogystal, gwariwyd £16k yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2019-20) ar offer TGCh ychwanegol.



Tabl 3 – Costau llai neu arbedion yn erbyn Cyllidebau Gwasanaethau

Arbedion yn erbyn y Gyllideb	2020-21 £
Costau cyfleustodau llai	130,000
Costau Heddlu a Diogelwch	175,000
Costau teithio staff	150,000
Gwariant y Comisiwn yn gysylltiedig ag Aelodau o'r Senedd*	168,000
Costau cyfieithu allanol	47,000
Addysg a Digwyddiadau	78,000
Argraffu a phostio	117,000
Lletygarwch	31,000
Hyfforddiant a Recriwtio	89,000
Cyfanswm	985,000

*yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer Aelodau, deunydd ysgrifennu a chostau ymgysylltu rhyngwladol. Mae'r holl eitemau hyn yn cael eu hariannu o gyllideb weithredol y Comisiwn.

Mae tablau 2 a 3 yn nodi arbediad net cyffredinol o £825k (£985k namyn £160k).

O'r arbediad net hwn, roedd swm o £408k heb ei ddefnyddio ar ddiwedd 2020 (mae'r ffigurau'n destun archwiliad). Cafodd y gweddill, sef swm o £417k, ei ddefnyddio i ariannu'r galw cynyddol am gyllid o'r gronfa brosiectau (Tabl 1), mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw a chynaliadwyedd sy'n cael blaenoriaeth ar yr ystâd. Roedd hyn yn cynnwys gwneud gwaith cynnal a chadw ar y lifftiau, ailosod larwm tân a goleuadau LED, cyflwyno system recriwtio newydd, a chyflwyno system newydd ar gyfer rheoli mynediad i swyddfeydd yr Aelodau.



Effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Dâl a Threuliau Aelodau.

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar Gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau wedi bod yn amrywiol, ac mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn arwydd o'r effaith honno.

Mae tablau i) a ii) yn dangos gwariant gwirioneddol yn erbyn gwariant a gyllidebwyd yn 2020-21 a 2019-20, yn y drefn honno. Mae tabl iii) yn dangos gwariant gwirioneddol yn 2019-20 yn erbyn gwariant gwirioneddol yn ystod y pandemig yn 2020-21.

i) Gwariant – Yn ystod COVID-19 £ '000	Gwir sefyllfa 2020-21	Cyllideb 2020-21	Amrywiad
Costau cyflogau Aelodau.	6,236	6,544	308
Costau cyflogau staff cymorth yr Aelodau.	8,073	7,797	(276)
Costau Teithio	47	310	263
Costau Swyddfa a Chostau Eraill	1,238	1,521	283
Cyfanswm	15,595	16,172	577

i) Gwariant – Cyn COVID-19 £ '000	Gwir sefyllfa 2019-20	Cyllideb 2019-20	Amrywiad
Costau cyflogau Aelodau.	6,246	6,320	74
Costau cyflogau staff cymorth yr Aelodau.	7,313	7,568	255
Costau Teithio	280	308	28
Costau Swyddfa a Chostau Eraill	1,118	1,501	383
Cyfanswm	14,956	15,697	741

iii) Gwariant – 2019-20 v 2020-21 £ '000	Gwir sefyllfa 2019-20	Gwir sefyllfa 2020-21	Amrywiad
Costau cyflogau Aelodau.	6,246	6,236	(10)
Costau cyflogau staff cymorth yr Aelodau.	7,313	8,073	761
Costau Teithio	280	47	(233)
Costau Swyddfa a Chostau Eraill	1,118	1,238	121
Cyfanswm	14,956	15,595	639

Roedd gwariant cyffredinol yn erbyn cyllideb y Penderfyniad yn uwch yn ystod 2020-21 na 2019-20 (£639k – tabl iii), er gwaethaf y ffaith bod cyflogau'r Aelodau wedi cael eu rhewi a'r ffaith bod



gwariant ar deithio wedi gostwng. Roedd hyn o ganlyniad i drosiant is na'r disgwyl ymhlith staff cymorth yr Aelodau, a oedd yn golygu bod nifer is o swyddi gwag na'r disgwyl (£276k – tabl i). Ni chafodd y tanwariant canlyniadol yn erbyn cyllideb 2020-21 (£577k) ei dynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod 2020-21. (Mae'r ffigurau'n destun archwiliad).

